
Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 26.02.2021



Mae hi wedi fod yn ffantastig gweld dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ôl wythnos yma, mae yna lawer o hwyl, dysgu, chwerthin a dal fyny gyda ffrindiau wedi bod yn mynd ymlaen! Mae'r plant wedi ymateb yn aeddfed i'n rheolau, diolch yn fawr iddynt!

It has been fantastic welcoming the Foundation Phase learners back this week, there has been a lot of fun, learning, laughter and catching up between friends going on! The children have responded maturely to the rules in place, we're very thankful to them!



Mae'r dysgwyr wedi bod yn ŵych am olchi eu dwylo yn drylwyr ers dychwelyd.

The learners have been brilliant at washing their hands since returning.



DIWRNOD Y LLYFR
WORLD BOOK DAY
4.3.2021


(LLYFR)NODWCH Y DYDDIAD
(BOOK)MARK THE DATE

DIWRNOD Y LLYFR
WORLD BOOK DAY
4.3.2021

Dydd Iau nesaf (04.03.21) bydd cyfle i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen wisgo fel eu hoff gymeriad allan o lyfr. Nid oes côst i'r digwyddiad yma. Bydd gweithgareddau amrywiol yn ymwneud a'n cariad at lyfrau yn digwydd i bawb yn ystod y dydd (ar lein i ddysgwyr CA2).

Next Thursday (04.03.21) there will be an opportunity for Foundation Phase learners to come to school dressed as their favourite character from a book. There is no cost to this event. A variety of activities celebrating our love for books will happen during the day for all leaners (online for KS2).



Addasiadau i strwythr staffio
Changes to staffing arrangments

Hoffem eich hysbysu o rai newidiadau i strwythr staffio yr ysgol. Rydym wedi creosawu 4 aelod staff newydd i'n plith hanner tymor yma sef Miss Siwan Jones fel cymhorthydd i Flwyddyn 1, Mr Ioan Roberts fel cymhorthydd i'r Meithrin, Miss Rachel Turner fel athrawes i'r Cyfnod Sylfaen a Miss Caitlin Blackwell fel athrawes i GA2.

Bydd Mrs Elen Williams yn gweithio oddi-ar safle'r ysgol tan cychwyn ei chyfnod mamolaeth a bydd Mrs Dona Williams yn ymgymeryd yn y rôl Dirprwy Bennaeth yn ystod y cyfnod yma. Miss Emily Griffiths yw Arweinydd newydd CA2 yn ystod y cyfnod.

Rydym yn dymuno'n dda i bawb yn eu rolau newydd.

We would like to take this opportunity to inform you of some changes regarding staffing that have happened in the school recently. We have welcomed 4 new members of staff to the team this half term; Miss Siwan Jones as a Teaching Assistant to Year 1, Mr Ioan Roberts as a Teaching Assistant to Nursery, Miss Rachel Turner as a Foundation Phase Teacher and Miss Caitlin Blackwell as a KS2 Teacher.

Mrs Elen Williams will be working off-site until the start of her maternity leave and Mrs Dona Williams will be taking the role as Deputy Head during this period. Miss Emily Griffiths is our KS2 Leader for this period.

We wish everyone all the best in their new roles.

Dilynwch ni ar Drydar

@YsgolDewiSant

Follow us on Twitter

1,885 o ddilynwyr

1,885 followers

Etholiad Senedd Cymru Elections

Mai 6ed 2021 May 6th

Bydd safle Ysgol Dewi Sant yn cael ei ddefnyddio fel gorsaf pleidleisio ar gyfer yr Etholiad Senedd ar Ddydd Iau, Mai 6ed. Yn sgîl hyn yn o gystal a'n rheolau llym i atal yr haint Cofid19 rhag lledaenu, **ni fydd** yr ysgol ar agor i ddysgwyr ar y diwrnod yma. Bydd dysgu o bell ar lein yn cael ei ddarparu i holl ddysgwyr yr ysgol ar y diwrnod yna.

Ysgol Dewi Sant's site will be used as a polling station during the upcoming Senedd Election on May the 6th. Because of this and due to having strict rules in place on site to lower the risk of the spread of Covid19, the school **will not** be open to learners and education for the day will be provided online via our electronic platforms.

Dydd Gwyl Dewi
St David's Day

Fel rhan o'n dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Dewi Sant rydym yn gwahodd eich plentyn i ddod i'r ysgol yn nillad eu hunain ar **Ddydd Llun, Mawrth 1af**.

Nid oes côst i'r digwyddiad yma.

Os oes gan eich plentyn wisg traddodiadol Cymreig, crys rygbi / pêl droed Cymru neu unrhyw ddilledyn coch/gwyn/ gwyrdd, byddem wrth ein boddau yn eu gweld yn gwisgo rhain. Ond rydym yn erfyn arnoch i beidio archebu unrhyw ddilledyn newydd ar gyfer y digwyddiad yma.

Byddem yn dathlu Cymru a phob dim sy'n arbennig am ein gwlad trwy gydol yr wythnos.

As part of our St David's Day celebrations at Ysgol Dewi Sant we are inviting your child to come to school in their own clothes on **Monday, March 1st.** There is no cost to this event.

If your child has a traditional Welsh costume, Welsh rugby / football shirt or any red/white/green clothing, we would love to see them wearing these. But we emphasise there is no need to purchase any new items of clothing for the event

We will be celebrating Wales and all that is special about our country throughout the week.







Nodyn i'ch atgoffa



Canllawiau dychwelyd i'r ysgol

Wrth ddychwelyd yn ôl i'r ysgol wedi'r Cyfnod Clo diweddaraf, rydym fel ysgol yn deall y pwysigrwydd o **reolau tynn** er mwyn gwarchod ein disgyblion, chi fel rhieni a staff. Felly, diolchwn o flaen llaw am eich cefnogaeth wrth sicrhau yr isod i reoli'r haint Covid-19.

Peidio gyrru'r plant i'r ysgol os oes ganddynt wres uchel, dagiad parhaus newydd neu wedi colli arogl a / neu blas.	
Mae rhoi plant mewn 'swigod' yn help enfawr i reoli'r haint ond rhaid sicrhau nad yw eich plentyn yn cymysgu gyda plant sydd mewn swigod eraill.	
Nid yw plant sydd mewn swigen yn yr ysgol i chwarae gyda'i gilydd, aros dros nos na mynychu partion y tu allan i'r ysgol. **Mae rheolau'r Cyfnod Clo yn parhau i fodloli y tu allan i furiau'r ysgol.**	
Bydd ffenestri y dosbarthiadau ar agor er mwyn sicrhau system awyru effeithiol trwy'r ysgol. Felly sicrhewch bod eich plentyn yn gwisgo haenau addas o ddillad i gadw'n gynnes.	

Canllawiau dychwelyd i'r ysgol

Pan ar safle'r ysgol, gofynnwn yn garedig i chi fel rhieni a gwarchodwyr.....

Symud o gwmpas y safle drwy ddefnyddio'r trefn un ffordd.	
Gwisgo gorchudd gwyneb pob amser ar dir yr ysgol.	
Cadw pellter o 2m rhwng oedolion eraill. Mae'r haint yn trosglwyddo fwy rhwng oedolyn i oedolyn.	
Ddim i gymysgu gyda'g eraill ar safle'r ysgol ac i beidio ymgynull wrth giât yr ysgol.	
Pan yn bosib, dim ond un oedolyn ar safle'r ysgol wrth ddanfon a nôl y plant os gwelwch yn dda.	

A note to remind you



Returning to school guidelines

As learners prepare to return to school following the latest lockdown, we as a school understand the importance of **strict rules** to protect our pupils, you as parents and staff. Therefore, we thank-you in advance for your support in securing the following to control the Covid-19 infection.

Do not send your children to school if they have one or more of these symptoms; a high temperature, a new persistent cough or loss of smell and / or taste.	
Placing children in 'bubbles' helps control the infection but you must ensure that your child does not mix with children who are in other bubbles.	
Children who are in a bubble at school should not play together, stay overnight or attend out of school parties. **<u>The lockdown rules continue to apply outside school</u>.**	
Classroom windows will be open to ensure effective ventilation throughout the school. So make sure your child is wearing appropriate layers of clothing to keep warm.	

Returning to school guidelines

When on the school site, we ask you kindly as parents and guardians to……

Please move around the school grounds adhering to the one-way system.	
Wear a face covering when on the school grounds at all times.	
Keep a distance of at least 2m between yourself and other adults. The infection transfers more from adult to adult.	
Do not mix with others or congregate by the school gates.	
When possible, we ask that only one other adult per family enters the school grounds at drop-off and collection times.	

Profi Llif Ochrol / Lateral Flow Testing

O wythnos yma ymlaen bydd pob oedolyn sy'n gweithio mewn ysgol yn Sir Ddinbych yn cael ei brofi ar gyfer Cofid-19 dwywaith yr wythnos trwy'r system 'profi llif' er nad oes ydynt yn dangos unrhyw symptomau. Mae hyn yn ran hanfodol o gadw plant, staff a teuluoedd yn ddiogel. Bydd y staff yn cynnal y profion pob nos **Sul** a nos **Fercher.**

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu, os bydd aelod o staff yn profi'n bositif; bydd rhaid iddynt hunanynysu ar unwaith a trefnu i gael eu profi mewn Canolfan Profi drwy brawf PCR.Bydd rhaid i ni gau y swigen i lawr yn syth. Os bydd y prawf PCR yn dychwelyd yn bositif bydd rhaid i'ch plentyn hunanynysu am 10 diwrnod; ond os iddo ddychwelyd yn negyddol bydd eich plentyn yn cael dychwelyd yn ôl i'r ysgol y diwrnod ganlynol.

Os oes angen i swigen gau, byddem yn hysbysu rhieni yn syth trwy neges Class Dojo ac e-bost. Felly rydym yn erfyn arnoch i wirio eich negeseuon Class Dojo ac e-byst pob nos a bore. Bydd cyfathrebu yn chwarae rhan hanfodol wrth gadw pawb yn ddiogel.

Yn sgil natur y modd yma o brofi, fe fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar fyr rybudd. Byddwn yn ceisio ein gorau glas i roi cymaint o rybudd â phosib i chi er mwyn i chi wneud y trefniadau anghenrheidiol ar gyfer gofal plant / dysgu o bell.

Bydd dysgu o bell yn ail-gychwyn ar y diwrnod cyntaf ar gyfer swigen sydd wedi cau gan ddefnyddio y platfform dysgu ar-lein sydd wedi'w ddefnyddio yn ystod yr hanner tymor diwethaf.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod yr amser hwn. Fel bob amser, rydym yma i ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych.

As of this week, all adults who work in schools throughout Denbighshire County Council will be tested routinely twice a week for Covid-19 through the 'lateral flow testing system' even if they show no symptoms. This is a crucial part of keeping staff, children and families safe. The staff will conduct the tests every Sunday and Wednesday evening.

We are writing to inform you that if a staff member tests positive, they will have to isolate immediately and arrange to be tested in a Covid Testing Centre(PCR test). We will have to shut that particular 'bubble' down immediately. When we receive the results of the PCR test; if the test is still positive your child will have to isolate for 10 days. If the test result is negative, your child may return to school the following day.

If a Bubble needs to close we will inform you as soon as possible on the Sunday or Wednesday night via Class Dojo and email. Therefore, we are asking you to check your Class Dojo messages and emails every evening and morning. Communication will play a crucial part in keeping everyone safe.

Due to the nature of this test 'bubble' closures could /will be made at very short notice. We will try our upmost to give you as much notice as possible in order for you to make alternative arrangements for childcare / home learning.

Learning from afar will restart on the first school day for a closed 'bubble' via the platforms we have been using over the last half term.

Many thanks in advance of your support during this time. As always, we are here for any questions you might have.

Mae plant 3-7 oed nôl yn yr ysgol. Ond rhaid dal i gyfyngu'r feirws er mwyn cadw ysgolion a gofal plant ar agor. Felly cofiwch:

- **Dim rhannu lifft i'r ysgol oni bai bod rhaid**
- Gwisgo masg i ollwng eich plant, a sgwrsio ar y ffôn nid wrth giât yr ysgol
- **Dwylo, wyneb, pellter – bob amser**
- I'r ysgol yn unig y mae'r swigen ysgol
- **Dim anfon eich plentyn i'r ysgol os yw'n sâl – hyd yn oed os nad oes symptomau coronafeirws**
- Daw cyfle am bartïon penblwydd ac aros dros nos cyn bo hir... ond am y tro, diolch am eich ymdrechion i gadw ysgolion a gofal plant ar agor.

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE
42216

Diogelu Cymru gyda'n gilydd
llyw.cymru/coronafeirws

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

3-7 year olds are back at school. We must still limit the spread of the virus to help keep schools and childcare open. So remember:

- **Only share a lift to school if you have to**
- Wear a mask for school drop off and catch up over the phone not at the school gate
- **Always remember – hands, face, space**
- School bubbles are for school only
- **Keep your child at home if they are unwell – even if you don't think it's Coronavirus**
- There'll be time for birthday parties and sleepovers before long... but for now, thank you for everything you're doing to keep schools and childcare open.

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE
42216

Together we'll keep Wales safe
gov.wales/coronavirus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government